Newyddion Mis Medi 2011

Munud i Feddwl: *Diwrnod Cofio Waldo* – 30 Medi 2011



Ystyrir Waldo Goronwy Williams (1904 - 1971) gan llawer yn ffigwr mytholegol. Nid oedd neb a'i adwaenai yn ei gasáu. Byddai pawb a dreuliai amser yn ei gwmni yn trysori pob eiliad. 'Roedd plant bob amser yn hoff ohono pan ddeuai i'w dysgu. Mynna rhai y perthynai i Waldo nodweddion sant. Yn sicr, roedd ganddo argyhoeddiadau dwfn a direidi difalais. I lawer Waldo oedd bardd Cymraeg mwyaf yr 20fed Ganrif. I eraill roedd yn heddychwr a ddigwyddai fod yn fardd. Edmygwyd ei safiad yn wynebu dau gyfnod yng ngharchar am wrthod talu Treth Incwm mewn protest yn erbyn gorfodaeth filwrol a rhyfela. Ar **Ddiwrnod Cofio Waldo** myfyria'r Gweinidog mewn **Munud i Feddwl** ar ei hoff gerdd o'r gyfrol *Dail Pren* - ***Angharad***.

Munud i Feddwl – 28 Medi 2011

"*Melltith ar y dydd y'm ganwyd; na fendiger y dydd ...*" (Jeremeia 20: 14) Oes yna duedd i '*Jeremeio*' yn y Gweinidog? Os oes, ydy hyn yn briodol? Oes yna le i ofidio? Sut mae ymateb i newyddion y dydd? Oes yna lygedyn o obaith? Cymerwch gysur - darllenwch **Munud i Feddwl** y Gweinidog y funud hon!

Bethania: Fesul Cam trwy Efengyl Mathew – 27 Medi 2011

Datganiad Pedr ynglŷn â Iesu' (Mathew 16: 13-20) oedd testun sylw Bethania heno – dyma'r ail gam trwy Efengyl Mathew! Gofynnwyd ai Datganiad Pedr yw'r geiriau mwyaf pellgyrhaeddol yn y darn hwn o'r Efengyl? Onid ar Gwestiynau Iesu y dylem ganolbwyntio, yn arbennig felly, "*A chwithau, pwy meddech chwi ydwyf fi?*" (Mathew 16: 15)? Gwyddom am bwysigrwydd ymateb Iesu i gyffes Simon Pedr oddi mewn i'r Eglwys Gristnogol; buwyd yn trafod yn fanwl ai'r gyffes neu'r ymateb oedd bwysicaf. Arweiniodd hyn i drafodaeth hynod o fywiog a diddorol am ein dealltwriaeth o seiliau gwahaniaethau oddi mewn i'r Eglwys Gristnogol. Mewn grwpiau bychain cafwyd gyfle i drafod ein hymateb ninnau i gwestiwn Iesu – "*pwy meddech chwi ydwyf fi?*" A yw'n bosibl credu heb wybod pwy yw Iesu? ... Beth olygir wrth '*gwybod*'? Oes yna wahaniaeth rhwng '*gwybod*' ac '*adnabod*'? Ydy '*deall*' a '*gwybod*' yn gyfystyr? (Llun: Pwy meddech chwi ydwyf fi? gan Linda Todd (The Glasgow Passion)'

PIMS: 'Bruggen Bouwen' ... Codi Pontydd – 26 Medi 2011



Beth fedrwch chi adeiladu gyda malws melys a sbageti? Pont! Dyna fu un o dasgau cyntaf Katerina Jonathan yn ystod ei arhosiad yn Amsterdam dros yr haf. Dewiswyd Katerina i fod yn un o gynrychiolwyr **Undeb yr Annibynwyr Cymraeg** yng nghynllun "*Bruggen Bouwen - Building Bridges*" ***CWM*** (Cyngor y Genhadaeth Fyd-Eang) Ewrop. Fe'i dewiswyd fel un o'r 30 a wnaeth ymgynnull fel cynrychiolwyr Cristnogion Ewrop yn y Tŷ Cenhadol, Amsterdam. Bu'r cyfnod yn brofiad gwych. Yn ôl Katerina, "*agoriad llygaid mewn cymaint o ffyrdd ... 34 ohonom ... rhai o Falaysia, Singapore, Sweden, Tuvalu, Prydain (a llawer o Gymru fach!!) ... a ffurfiodd gymuned a grŵp o ffrindiau mor agos mewn amser mor fyr!*". Heno, bu Katerina yn sôn wrth Aelodau ***PIMS*** am y gwahanol brosiectau bu'n ymwneud â hwy. Treuliodd amser yn gweithio gyda'r elusen "*Stichting Present*" sy'n estyn cefnogaeth i bobl fregus ac anghynwysedig. Bu hefyd yn cynorthwyo yng ngwaith gofal lloches i'r digartref. Soniodd Katerina am un profiad dirdynnol a gafodd yng nghwmni Karl, a arferai fod yn ddigartref a bod yn gaeth i gyffuriau: "*Trefnodd daith o gwmpas y 'red light district' .... anodd iawn esbonio faint o effaith gafodd hyn arnaf*". Canolbwyntiodd Katerina ei gwaith prosiect ar dreulio pedwar diwrnod yn gweithio gyda phlant mewn eglwysi lleol o ardaloedd tlotach. Amcan y prosiect oedd teithio gyda'r plant ar hyd siwrnai bywyd, a'r daith wedi ei selio ar '*The Pilgrims Progress*' gan John Bunyan (1628-1688).

"Cefais y dasg o fod yn dywysydd i'r plant drwy ddefnyddio arth o'r enw Bob!", meddai, *"er fy mod wedi poeni ychydig ar y dechrau o ran cyfathrebu gyda'r plant - erbyn diwedd y diwrnod cyntaf roeddwn yn cyfathrebu yn grêt drwy ddefnyddio geiriau syml Iseldiraidd a llawer o wynebau a symudiadau amrywiol!*" Cafwyd hefyd amser i ymlacio a chawsom glywed rhai o hanesion Katerina a'i ffrindiau yn mwynhau bwyd Iseldiraidd, gan gynnwys y '*stroopwafel*' enwog, ymweld â Chartref Anne Frank ac Amgueddfa van Gogh, mynd ar fâd ar hyd y camlesi, beicio o amgylch y ddinas ac addoli yn yr eglwysi Protestannaidd lleol. Cafwyd noson ***PIMS*** hynod o lwyddiannus a diddorol; mawr oedd y diddordeb wrth edrych trwy Ddyddiadur Lluniau Katerina ar ddiwedd y sesiwn.

Yn ystod y Sesiwn Holi soniodd Katerina am yr hyn a ddysgodd yn Amsterdam. Fe'i synnwyd gan mor hawdd yw gwneud cyfeillion mynwesol mewn amser byr er bod pawb yn dod o wahanol wledydd a thraddodiadau. Soniodd hefyd am y gwahaniaethau a fodolai mewn ffydd a chred ymysg y cynrychiolwyr. Rhai, yn arbennig y rheini oedd yn dod o Asia a Malaysia, yn dod o eglwysi â channoedd o aelodau, yn darllen a chredu'r Beibl yn llythrennol, ac yn bendant iawn ei safbwyntiau a'i daliadau; eraill, yn

fwy tebyg iddi hi, yn credu yn bendant yn Nuw ac yn Iesu Grist ond yn dal i holi ac weithiau, hyd yn oed amau. Y rhyfeddod, yn ôl Katerina, oedd nad oedd dim gwahaniaeth am hyn i gyd - 'roedd y gymdeithas a grëwyd yn sicrhau derbyniad i bawb ond bod eich hunan! Yn ôl Heledd a Mared a apwyntiwyd yn Ohebwyr y Cyfarfod dyma oedd neges fawr y noson: "*bod angen i chi fod yn chi eich hun, heb ots pa mor wahanol yw pawb.*" Neges, nad yw'n ddieithr i Aelodau Eglwys Minny Street ei chlywed o bulpud ein capel oedd hon! Gorffennodd Katerina y sesiwn trwy annog unrhyw un a gaiff gyfle tebyg i gymryd mantais lawn ohono - "*wnewch chi ddim difaru*" oedd ei neges!

Iesu'r Cyfaill, Yr Ynfytyn Cyfoethog a Dal Ati! – 25 Medi 2011

Bu cefnogi teuluoedd glowyr yn dilyn damweiniau a thrychinebau yn rhan annatod o fywyd Eglwys Minny Ambiwlans Awyr Cymru (Elusen yr Eglwys 2011-2012) yng Nglofa GleisionStreet ers ei sefydlu. Sôn Cofnodion yr Eglwys am gasgliadau at Danchwa Senghennydd, ger Abertridwr yn 1913, Tanchwa'r Cwm yn 1928 a Llifogydd y Rhondda yn 1929. Yn Adroddiad 1934, ceir dyfyniad o anerchiad y Parchedig R.J. Jones sy'n diolch am '*swm sylweddol at Gronfa Gresford*' ac er, gyda threigl y blynyddoedd, lleihaodd y galw am gymorth yn dilyn damweiniau mewn pylloedd glo ceir sôn am gyfraniadau yn cael eu cyflwyno yn 1964 at 'Trychineb Pwll y Cambrian' yn Clydach Vale a Thrychineb Aberfan yn 1966. Priodol heddiw, felly, oedd bod ein casgliad rhydd yn y ddwy oedfa i'w gyflwyno i Gronfa Glowyr Cwmtawe, yn dilyn y trychineb yng Nglofa Gleision, Cilybebyll ganol y mis.

Trafod *Iesu'r Cyfaill* fu'r **Ysgol Sul** yn ei wneud yn ystod y bore. Bu'r Plant yn edrych ar hanes Lasarus gan gysylltu Nerth Iesu yn atgyfodi Lasarus o'r bedd â Nerth a Gallu Duw. Buwyd yn trafod y cwestiwn: "*Pe byddem yn gwisgo clogyn Superhero, ac mai Gair Iesu oedd ein pŵer arbennig ni, beth fyddem yn medru eu gwneud yn wahanol?*" Cafwyd gosodiad pellgyrhaeddol a dadlennol iawn o enau Gruff pan ddywedodd "**Iesu Grist yw pob *Superhero* wedi eu rowlio i mewn i un!**" … oes yna ddarpar Bregethwr yn ein plith? Datblygwyd y syniad o allu 'Nerth Duw' a 'Nerth Iesu' wrth astudio'r emyn:

"*Rho imi **nerth** i wneud fy rhan,*
i gario baich fy mrawd,
i weini'n dirion ar y gwan
a chynorthwyo'r tlawd."

(E A Dingley 1860-1948 *cyf.* Nantlais 1874 – 1959; *C.Ff.* 805).

Aethpwyd ati i lunio poster yn cyplysu Nerth Iesu, yn gwella pobl a dod â'r marw yn ôl yn fyw, â beth fedrwn ni ei wneud trwy ddefnyddio Gair a Nerth Duw - estyn cymorth, gwrando, codi calon ffrind, rhannu, cefnogi, cydweithio a gweddïo. Hanes Sacheus yn y Goeden oedd testun trafodaeth y

Bobl Ifanc. Fel arfer, cafwyd trafodaeth fanwl ar agweddau o'r hanes. Yn benodol, buwyd yn trafod pedair thema: ar gychwyn yr hanes 'cymryd' oedd Sacheus, erbyn diwedd yr hanes 'roedd yn 'rhoi' - pam y newid?; nid y dewis mwyaf amlwg na'r mwyaf synhwyrol, yn arwynebol o leiaf, a ddefnyddia Iesu i wneud ei waith - a ydym weithiau yn twyllo ein hunain?; nid yw byth yn rhy hwyr i droi at Iesu - beth yw goblygiadau hyn?; ac, yn olaf, mae Iesu yn cynnig trwy'r amser ond, fel Sacheus, rhaid i ni hefyd ei wahodd i'n bywydau - beth olyga hyn i ni?

Wyneb cyfarwydd, Y Parchedig Gareth Reynolds o Gaerdydd, oedd ein Pregethwr Gwadd yn ystod y dydd. Ar ôl iddynt gyflwyno adnodau bu'n sôn wrth y Plant a'r Plantos yn y Sêt Fawr am dyfiant yr Iaith Gymraeg yng Nghaerdydd ac yna cymharu hynny â thyfu yn y Ffydd. Clywsom am Griffith Jones (1684 -1761; llun), Llanddowror a'i Ysgolion Teithiol a sut y bu iddo yntau sicrhau bod y 'werin' yn cael eu hyfforddi yng Ngwirioneddau'r Gair trwy ei hiaith eu hunan. Canolbwyntio ar Ddameg yr Ynfytyn Cyfoethog (Luc 12:13-21; llun: *Parable of the Rich Fool* gan Rembrandt van Rijn (1606-1669)) a wnaeth ein Cennad yn Oedfa'r Bore a defnyddio ymateb Iesu i gwestiwn a ofynnwyd iddo gan un o'r dorf oedd yn gwrando arno fel sail myfyrdod. Nododd y Pregethwr Gwadd bod hanfod y cwestiwn ei hun, ac yn arbennig y cymal "*dywed wrth fy mrawd am roi i mi fy nghyfran o'n hetifeddiaeth*" yn rhyfedd. Yn ôl eu traddodiad 'roedd gan yr Iddewon gyfreithiau pendant iawn ynghylch sut oedd etifeddiaeth i'w rannu. Ni wnaeth Iesu ateb y cwestiwn yn uniongyrchol; yn hytrach, nododd, "*nid yw bywyd neb yn dibynnu ar ei feddiannau*" (Luc 12: 15b), cyn mynd yn ei flaen i adrodd y ddameg. Nid oedd dim yn anonest ynghylch y gŵr cyfoethog, nid yw Iesu yn condemnio cyfoeth; gwreiddyn y drwg yw ariangarwch **nid** arian. Er bod y gŵr cyfoethog yn ddyn da, yn weithiwr caled, cydwybodol, dibynnol a diffuant caiff ei alw'n ynfytyn! Pam? Anghofiodd y gŵr hwn egwyddorion byw! **Anghofiodd Dduw:** canmolodd ei hun am ei lwyddiant gan anghofio mai "*Ar ei drugareddau yr ydym oll yn byw*" (Elfed 1860-1953 *C.Ff.* 130). Fe'n hatgoffwyd o eiriau o'r Hen Destament: "*Os dywedwch, "Ein nerth ein hunain a chryfder ein dwylo a ddaeth â'r cyfoeth hwn inni", yna cofiwch yr Arglwydd eich Duw, oherwydd ef sy'n rhoi nerth ichwi ....*" (Deuteronomium. 8:17-18a) a Hanes y Deg Gwahanglwyf - un yn unig wnaeth ddiolch. Hawdd iawn mewn cymdeithas lwyddiannus yw anghofio diolch, ac anghofio Duw.

Anwybyddu ac anghofio anghenion cyd-ddyn. Cawn nifer o enghreifftiau yn y Beibl, megis hanes Gwinllan Naboth (1 Brenhinoedd 21), ac yn ein cymdeithas lle gwelir sut mae anghofio Duw yn arwain at anwybyddu angen cyd-ddyn. Mewn cymdeithas seciwlar, diflannu gwna gwerthoedd ysbrydol yn gyflym iawn. **Colli ei enaid ei hun;** yn y diwedd, bu i'r pethau oedd yn mynd â'i fryd feddiannu'r gŵr cyfoethog. Yr enaid yw'r peth mwyaf gwerthfawr sydd gennym - y cyfuniad o feddwl, calon, ysbryd a chorff. 'Roedd y rhybudd i ni, aelodau a chynulleidfa Eglwys Annibynnol Minny Street ym Mis Medi 2011 yn gwbl eglur: mynnwn lwyddiant **ond** peidiwn anghofio'r hyn sydd yn wir sylfaenol i fywyd. Cofiwn Dduw!

At Ail Lythyr Paul at yr Eglwys yng Nghorinth (llun: Adfeilion Corinth) y bu inni droi ein myfyrdodau yn yr Oedfa Hwyrol gan ganolbwyntio ar yr adnod: "*Am hynny, gan fod y weinidogaeth hon gennym trwy drugaredd Duw, nid ydym yn digalonni.*" (2 Corinthiaid 4: 1). Cyfaddefodd ein Pregethwr Gwadd ein bod yn byw mewn cyfnod anodd; o'n hamgylch mae rhyfeloedd a therfysgoedd yn cael eu brwydro, cyflafan ar ôl cyflafan - boed yn ddaeargrynfeydd, tsunami neu ddamweiniau. Mae'r Eglwys hefyd, o leiaf yn ein gwlad, yn ymlwybro ar hyd llwybr ansicr iawn. Soniodd am y diffyg Ffydd ymysg y boblogaeth yn gyffredinol a'r anghrediniaeth gyfoes a bregethir gan wyddonwyr megis Richard Dawkins. Dyma, yn ôl ein Cennad, yr union fath o gymdeithas oedd yn bodoli yng Nghorinth; fe'n cyfeiriwyd at y rhaniadau y sonnir amdanynt ar ddechrau'r Llythyr Cyntaf gyda charfanau yn bleidiol i Paul (Llun: Apostol Paul - Murlun o Thesalonica), i Apolos, i Ceffas ac eraill i Grist (1 Corinthiaid 1: 10-17). Mae anogaeth Paul i'r Eglwys yng Nghorinth yr un mor briodol i ni yn Eglwys Minny Street yn 2011! Gan sôn am hanes **Eglwys Bresbyteraidd Cymru**, sydd eleni'n dathlu 200-mlwyddiant ordeinio'r gweinidogion cyntaf yn 1811, cyfeiriodd at weithwyr megis Thomas Charles (1755-1814) a Hywel Harris (1714 - 1773) a fynnodd ddal ati er gwaethaf popeth. Na ddigalonnwn ninnau; daliwn ati gan ymdrechu a pharhau i bregethu Efengyl Crist. Fel y'n hatgoffir gan ein Gweinidog, **mae pob yr un ohonom, o'r hynaf i'r ieuengaf, wedi ein breintio â'r gallu i fod â rhan yng Ngwaith y Deyrnas!**



Yn ystod y dydd bu'r **Cylch Dinasyddiaeth** yn cyfarfod i drafod rhaglen waith a nod y Cylch am 2011-2012. Ceir erthygl gan ein Gweinidog yn *Y Tyst* yr wythnos hon ar ***Ddemocratiaeth Eglwysig***. Gofyn y Gweinidog gyfres o gwestiynau hynod o bwysig ynglŷn â'r modd y down i benderfyniadau ar sut y rhed yr Eglwys Leol. A ydym yn sicrhau bod llais pawb i'w glywed? Ai cymryd pleidlais, a hynny weithiau heb fawr o drafodaeth, yw'r ffordd orau o wneud penderfyniad? A ddylid ymdrechu llawer mwy i gyfaddawdu? Cwestiynau pwysig, yn arbennig felly o gofio'r pwyslais a roddwn fel Annibynwyr ar y Cwrdd Eglwys a 'Llais yr Eglwys'. Yn Y Bedair Tudalen Cydenwadol ceir hefyd gyfeiriad at gyflwyniad cerddorol Pobl Ifanc Eglwys Minny Street yn Agoriad Swyddogol y 'Stafell Fyw ychydig wythnosau yn ôl.

Cylch Dinasyddiaeth - Dathlu yn Llanfair Penrhys – 23 a 24 Medi 2011

Ers nifer o flynyddoedd mae yna gysylltiad byw wedi datblygu rhwng Eglwys Llanfair ym Mhenrhys ag Eglwys Minny Street. Bu Grŵp Emaus ar bererindod yno ddwywaith yn ystod saith mlynedd ei fodolaeth, bellach 'rydym wedi ailgydio yn yr arfer o gyflwyno dillad safonol i'w gwerthu yn '*Boutique*' Penrhys, bu cynrychiolwyr o'r **Cylch Dinasyddiaeth** yn Swper Cymorth Cristnogol Penrhys ychydig fisoedd yn ôl ac, fel mae'n digwydd, Cydlynydd y Cylch Dinasyddiaeth, Margaret Davies, yw Cynrychiolydd **Undeb yr**

Annibynwyr Cymraeg ar Fwrdd Rheoli Llanfair Penrhys.

Bu ddoe a heddiw yn ddyddiau o ddathlu ym Mhenrhys wrth i Ganolfan Llanfair gael ei hailagor yn swyddogol ar ôl cyfnod o atgyweirio ac adnewyddu. Bu cynrychiolwyr o Eglwys Minny Street yn bresennol ar hyd y ddeuddydd. Ddoe, ym mhresenoldeb yr Aelod Cynulliad lleol a Gweinidog Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Leighton Andrews AC , a Maer Rhondda Cynon Taf, y Cynghorydd Sylvia Jones ail-agorwyd y ganolfan. Uchafbwynt y digwyddiad hwn oedd gwrando ar blant Ysgol Penrhys yn cyflwyno'r gân '*Mae Duw yn dda i mi'* mewn pum iaith – y Gymraeg, Saesneg, Malagaseg (Madagascar), Coreëg a Miso (Misoram, India). Diddorol hefyd oedd gweld fideo o'r archif yn dangos dechrau adeiladu Eglwys Llanfair; gosodwyd wyth carreg, o'r wyth eglwys a ddatgorfforwyd yn y Rhondda Fach, mewn ffurf croes yn sail mynedfa'r Ganolfan.

Heddiw, **Oedfa o Fawl a Diolch** oedd canolbwynt y dathlu. Daeth tyrfa fawr ynghyd, gyda'r capel yn llawn – yn drigolion Penrhys, yn wirfoddolwyr o Madagasacar, Corea ac India, yn gynrychiolwyr y gwahanol enwadau ac undebau Cristnogol sy'n ymwneud ag Eglwys Llanfair, ynghyd â nifer o aelodau Eglwys Minny Street. 'Roedd hon yn oedfa arbennig iawn a chafwyd bendith fawr o'r addoliad; 'roedd Margaret Davies yn un o'r Mirlun: Penrhysdair a'n harweiniodd mewn gweddi ymatebol dros Llanfair, dros Gymru a thros y byd. Erys tri cyfraniad yn y cof: plant yr Ysgol Sul yn arwain y gynulleidfa i ganu '*Un cam bach ar hyd y byd yr af* (*One more step along the world I go)*'; anerchiad pwerus a phersonol y Parchedig John Morgan a fu, gyda'i briod, Nora, yn arwain gweithgarwch Eglwys Llanfair Penrhys am nifer o flynyddoedd – bu'n sôn am y rhyngweithiad gwbl angenrheidiol rhwng trigolion Penrhys ag Eglwys Llanfair; ac yna y 14 o bobl ifanc, yn eu harddegau, sy'n arwain y Cwmplin bob Nos Fercher yn Eglwys Llanfair, yn ein harwain fel cynulleidfa i ganu'r *Nunc Dimittis*. Profiad ysbrydol iawn oedd bod yn yr oedfa. Ar ddiwedd yr addoli cafwyd cyfle i drigolion Penrhys ddiolch i Sharon Rees, sy'n digwydd bod yn Annibynwraig, am ei holl waith yn arwain a rhedeg Canolfan Eglwys Llanfair o ddydd i ddydd.

Cylch y Gymdeithas Ddiwylliannol a Bywyd Cymdeithasol: Taith Gerdded Arfordir Ardal Aberogwr – 23 Medi 2011

Tua'r adeg hon o'r flwyddyn fe fydd John Albert Evans, Trefnydd Teithiau Cerdded Eglwys Minny Street, yn siŵr o ofyn "*Beth am fynd i olwg y môr cyn y Gaeaf?"* Dyma un o'i hoff deithiau, yn enwedig gan fod cinio blasus a chroeso yn ein haros yn 'Y Pelican' ar ddiwedd y daith! Rhyw filltir o waith cerdded sydd o'r maes parcio yn Ogwr i waelod y bryncyn ym mhen pella'r llwybr. Llwybr rhamantus iawn yw hwn yn dilyn yr arfordir bob cam gyda sŵn y tonnau yn hudo wrth iddynt rowlio tua'r lan ar hyd y daith.

'Roedd Ha' Bach Mihangel ar ei ore fore heddiw! Y rhedyn yn goch ar y llechwedd a'r awyr yn glir. Gan fod defaid yn pori'r ddaear yn gyson mae'r llwybr yn esmwyth dan draed. Yn y rhan hon o'r arfordir mae ffurfiant y graig yn hynod o ddiddorol ac amrywiol. Mewn mannau mae talpiau enfawr o gerrig yn codi'n rhesi naturiol gan ymdebygu i theatr Rufeinig yn wynebu allan i'r môr. Draw yn y pellter gwelwn dywod melyn Traeth Porthcawl ac ar fore fel heddiw 'does ryfedd ein bod ni i gyd yn cytuno fod dod i olwg y môr cyn y Gaeaf wedi bod yn syniad da.

Taith y Cyfundebau – 22 Medi 2011



Bu cynrychiolwyr o Eglwys Annibynnol Minny Street yn bresennol yng Nghyfarfodydd y Dydd yn y Tabernacl, Pen-y-bont ar Ogwr. Fore heddiw, cynhaliwyd **Astudiaeth Feiblaidd** ddifyr ac adeiladol gan y Parchedig Ddr Alun Tudur. Gan ein symud o'r pwyslais ar adnod, neu damaid o adnod, at arwyddocad darn cyfan o'r Ysgrythur, arweiniwyd y cwmni a ddaeth ynghyd trwy dri darn o'r Testament Newydd (1 Corinthiaid 12: 4-27; Effesiaid 4: 1-16 a Rhufeiniaid 12: 1-2 a 9-21). Ymdrin y tri darn â Doniau'r Ysbryd; yn benodol, sut mae'r doniau rhyfedd a rhyfeddol rheini yn medru adeiladu'r eglwys yn lleol. Fe'n rhannwyd yn grwpiau i drafod nifer o gwestiynau; cafwyd trafodaeth frwd a buddiol. Cynnig Duw, heddiw, fel erioed, ei ddoniau i bawb o'i bobl! Crea'r doniau undod mewn amrywiaeth; hanfod Gweinidogaeth yr Eglwys Leol yw iawn a llawn ddefnyddio doniau lu ei haelodau er clod ac er gogoniant Duw. Yn ystod y prynahwn cynhaliwyd **Seiat Holi** o dan lywyddiaeth y Parchedig Ddr R Alun Evans. Heno, mewn **Oedfa Fawl**, gan ddychwelyd i ***Reolau'r Bywyd Cristnogol*** (Rhufeiniaid 12: 9 – 21), gofynwyd ***Beth nesa'?*** Oedfa o her ac o obaith oedd hon; her wrth ein gwahodd fel eglwysi i ddefnyddio geirau'r Apostol Paul yn ei Lythyr at yr Eglwys yn Rhufain i fesur hyd a maint ein heglwysi, a gobaith o sylweddoli cymaint y medrwn ei wneud o ddefnyddio y doniau hynny mae Duw wedi eu rhoi i bob yr un ohonom. Cyfathrebwyd her fawr yr oedfa yn fwyaf effeithiol trwy eiriau cân Swci Boscawen, *Adar y Nefoedd*: "***ma' 'na waith i'w wneud!***""

Rhaglen Datblygu Annibynwyr Cymru

Yn eisiau pan fyddo'n nosi – y ddawn
i ddod a goleuni
Duw yn ôl yn ein gwlad ni
i'n dal a'n hysbrydoli.
Beti-Wyn James

Taith y Cyfundebau – 21 Medi 2011

Teithiodd 22 o aelodau Eglwys Minny Street i'r Tabernacl, Pen-y-bont ar Ogwr heno i fynychu'r cyfarfod cyntaf o **Daith y Cyfundebau yng Nghyfundeb Dwyrain Morgannwg**. 'Roedd cynulleidfa gref wedi dod ynghyd o wahanol Eglwysi'r Cyfundeb i wrando cyflwyniad gan Ysgrifennydd Cyffredinol **Undeb yr Annibynwyr Cymraeg**, y Parchedig Dr Geraint Tudur, ar *Yr Undeb ac Annibynwyr Cymru*. Prin fod yr un ohonom wedi gadael heb fod wedi dysgu rhywbeth newydd: cafwyd cipolwg ar sail a hanes ein traddodiad fel Annibynwyr (sydd wedi goroesi ers sefydlu'r Eglwys Annibynnol gyntaf yn Llanfaches yn 1639); cyflwynwyd amlinelliad addysgiadol

o strwythur gweithgarwch yr Eglwys Leol; a soniwyd am chwe gwahanol agwedd **Rhaglen Datblygu Annibynwyr Cymru** - rhaglen yr ydym ninnau yn Eglwys Minny Street wedi ymrwymo iddi, sydd wedi bod yn sail i drafodaethau ymysg y Diaconiaid ac wedi sicrhau cyd-destun i lawer o'n Gweithgarwch Datblygu yn yr Eglwys eisoes. Braf hefyd oedd cymdeithasu dros gwpanaid yn Festri'r Tabernacl cyn dychwelyd nôl ar hyd yr M4 i Gaerdydd wedi ein goleuo, ein dwysbigo a'n hysbrydoli.
Bydd Taith y Cyfundebau yn parhau yfory gydag ***Astudiaeth Feiblaidd*** am 10:30, ***Seiat Holi*** am 14:30 ac ***Oedfa o Fawl – Beth nesa'?*** am 19:00.

Munud i Feddwl – 21 Medi 2011

Cloch Heddwch y Cenhedloedd Unedig Yn 1981, sefydlodd Cymanfa Gyffredinol y Cenhedloedd Unedig 21 Medi yn **Ddydd Rhyngwladol Heddwch**. Ers 2001, datblygwyd y Diwrnod i fod yn Ddydd Cadoediad a Dim Trais. Gwnaethpwyd Cloch Heddwch y Cenhedloedd Unedig o ddarnau arian o 60 gwlad; mae'n hongian mewn ffrâm o gedrwydd Siapan ac yn sefyll ar sylfaen wedi ei chreu o graig o Israel. Heddiw, ymbil y Cenhedloedd Unedig ar bob cenedl sy'n rhyfela, brwydro a lladd i atal tanio; apelir ar ysgolion a sefydliadau cyhoeddus i gynnal gweithgareddau sy'n ymwneud â heddwch. Yng nghalendr Cyngor Eglwysi'r Byd cyfeirir at heddiw fel Dydd Rhyngwladol Gweddi dros Heddwch. Rhannu llythyr at Robert John a wna'r Gweinidog â ni yn ei **Funud i Feddwl** wythnosol.

Cylch Dinasyddiaeth: Nwyddau Masnach Deg – 20 Medi 2011

Wrth ymgyrchu i sicrhau bod nifer cynyddol o'n harchfarchnadoedd yng Nghaerdydd yn gwerthu nwyddau Masnach Deg mae'r **Cylch Dinasyddiaeth**, o dan arolygiaeth Dianne ac Andrew Bartholomew, a Robin Brown, yn rhoi cyfle i ni'n fisol i brynu ystod eang o nwyddau o *Siop Fair Do's Siopa Teg*. O wneud hyn, cawn gyfle nid yn unig i brynu'r adnoddau bwyd ac ati a geir yn ein siopau (coffi, te, ffrwythau sych, siocled ac ati) ond hefyd ambell nwydd amgen (er enghraifft, bagiau, dillad, cardiau cyfarch). Eleni, derbyniom dystysgrif yn nodi ein bod wedi prynu gwerth dros £2,650 o nwyddau yn ystod y flwyddyn. Awn ati yn y 12 mis nesaf i wella ar hyn gan obeithio ein bod, trwy gefnogi Masnach Deg, yn ***'gwneud byd o wahaniaeth'***.

Ail-gydio, Ail-ymgysegriad a Chyd-addoliad – 18 Medi 2011

Teyrnged Goffa - PontardaweYn ystod **Oedfaon y Dydd** ymunodd cynulleidfa Eglwys Minny Street â chynulleidfa Eglwys y Plwyf Cilybebyll a chynulleidfaoedd Cristnogol ar draws Cymru i gofio'r pedwar glöwr fu farw yn sgil y trychineb yng Nglofa Gleision, Cilybebyll ger Pontardawe. Mewn tawelwch buom yn cofio am Phillip

Hill o Gastell-nedd, a Charles Breslin, David Powell a Garry Jenkins o Gwm Tawe; buom hefyd yn gweddïo dros eu teuluoedd, eu cyfeillion a'u cymunedau. Boed i Dduw eu cysuro a'u nerthu.

Reis, pêl golff a phot jam! Dyna oedd gan y Gweinidog i'w gyflwyno i'r plant a phlantos yn y Sêt Fawr fore heddiw. 'Roedd y pot jam yn cynrychioli'r oriau 'rydym yn effro, ein bywydau; y reis, yr holl bethau sy'n llenwi ein bywydau a'r bêl golff, Duw. Cyfaddefodd y Gweinidog bod Bywyd 2011 yn brysur a hawdd iawn llenwi pob awr â rhywbeth - ceisiwn wedyn ffitio Duw i mewn ond methu a wnawn! Dangosodd hyn trwy lenwi'r pot jam a reis ac yna ceisio gwthio'r bêl golff i mewn - gorlifodd y reis. Methiant! Mae yna, fe'n hatgofiodd, ffordd arall! "*Beth*", gofynnodd, "*am roi'r bêl golff i mewn yn y pot jam gyntaf, yna llenwi gweddill y pot a'r reis?*" Ffitiodd y cyfan yn dwt ac hawdd rhoi y clawr yn ôl ar ben y pot! A'r neges? - ac nid neges i'r plant a'r plantos yn unig oedd hon: anodd ffeindio lle i Dduw ar ôl popeth arall ond o osod Duw yn ei le cyn dim byd arall, rhoi Duw yn gyntaf, mae popeth arall yn ffeindio'i le, yn ffitio'n dwt yn ein bywydau. Neges heriol a beiddgar i ni i gyd ar ddechrau blwyddyn newydd o waith yn Eglwys Minny Street. **Ble roddwn ni Dduw? Yn gyntaf, neu ar ôl popeth arall?**

Hanes Iesu yn ymweld â chartref Mair, Martha a Lasarus oedd thema'r **Ysgol Sul**; y dosbarthiadau yn ail-gydio ar ôl yr haf. Bu ***Dosbarth y Plantos*** wrthi yn ail greu'r stori trwy ddefnyddio Tŷ Dol a chymeriadau 'Lego'. Cafwyd sgwrs ar sut yr ydym yn paratoi ar gyfer ymwelydd pwysig - cafwyd ymatebion diri a phawb, yn amlwg, yn paratoi mewn ffordd wahanol. Pob ymdrech, er hynny, yn dangos parch personol tuag at yr ymwelydd. Cafwyd ystyriaeth ychydig mwy eang yn ***Nosbarth y Plant***, trafodwyd Iesu nid yn unig yn ymweld â chartref Mair a Martha, ond hefyd sut 'roedd yr Iesu yn ymwneud â'i ffrindiau. Bu'r ymenyddiau yn gweithio'n galed wrth i aelodau'r dosbarth fynd ati ar ôl clywed a thrafod yr hanes yn chwilio am eiriau cysylltiedig â'r hanes mewn chwilair.

Am yr wythfed flwyddyn yn olynol bu ***Pobl Ifanc Minny Street*** (***PIMS***) yng Ngholeg Iwerydd, San Dunwyd am y penwythnos. Cyfnod o hwyl a myfyrdod yw'r deuddydd ac ers dwy flynedd mae'r digwyddiad yn gydiol wrth ein **Gŵyl Flynyddol**. Eleni bu 16 o'n pobl ifanc yn y Coleg a chafwyd hwyl i'w ryfeddu yn nofio, mynydd-fyrddio, canŵio a gwibio lawr y *zip-wire*, cyn neidio i mewn i'r pwll nofio allanol. Enillydd y gêm '*Pringle*' flynyddol oedd Ffion! Yn y cyfnodau mwy tawel, aethpwyd ati i baratoi a thrafod cynnwys yr **Oedfa Foreol**. Oedfa ail-gydio (ar ôl tawelwch yr haf) ac ail-ymgysegriad yw Oedfa Foreol ein Gŵyl Flynyddol a phwy gwell nag aelodau ***PIMS***, yng nghanol asbri eu ffydd sydd bob amser yn donic i'r enaid, i arwain yr

ailgysegru holl bwysig hwn. Cerdd anfarwol Waldo (1904 – 1971; llun), ***Pa beth yw Dyn?*** (allan o *Dail Pren*, Gwasg Aberystwyth 1956) oedd thema ganolog ein haddoliad. Fe'n harweiniwyd, gan aelodau ***PIMS***, trwy bob un o'r cymalau a gwelwyd yn y geiriau bod yna neges heriol i ni yn Eglwys Minny Street. "*Beth yw credu?*" Onid "*cael neuadd fawr rhwng cyfyng furiau?*" Cynnig Duw i ni ehangder y "*neuadd fawr*" o fewn "*cyfyng furiau*" ei fwriad Ef ar ein cyfer. "*Beth yw trefnu teyrnas? Crefft sydd eto'n cropian.*" Sylweddolwn ninnau mai dull Iesu o deyrnasu yw caru, gwasanaethu, rhannu ac aberthu hyd yr eithaf. Arnom ni mae pwysau'r deyrnas honno; ni yw gweithwyr Duw mewn cymdeithas. "*Beth yw'r byd? Cylch yn treiglo*" a "*chrud yn siglo.*" Lledu ein gorwelion a wna Ffydd, nid cyfyngu ein meddwl. I grynhoi'r myfyrdod pellgyrhaeddol hwn fe'n hatgoffwyd bod gennym waith i'w gyflawni - pawb ohonom. Bydd gofyn am farn aeddfed y rhai mewn oed, ac ysbryd anturiaethus ac eiddgar yr ifanc fel y gallwn gyflwyno i ddinas Caerdydd rhyfeddod cael perthyn i Eglwys Iesu Grist a rhamant dilyn Gŵr y Groes.



Ymunodd Eglwysi Cymraeg y Brifddinas â ni yn ein **Hoedfa Hwyrol** - Eglwysi Ebeneser, Crwys, Tabernacl a Salem ynghyd ag Eglwys Bethel, Penarth. ***Y Parchedig Kevin Davies,*** Gweinidog Eglwysi Bethel, Penarth a'r Tabernacl, Y Barri oedd ein Cennad Gwadd heno. Mawr fu ein braint. Geiriau o broffwydoliaeth Eseciel oedd testun y bregeth: "*Dywed wrthynt, 'Cyn wired â'm bod yn fyw, medd yr Arglwydd Dduw, nid wyf yn ymhyfrydu ym marwolaeth y drygionus, ond yn hytrach ei fod yn troi o'i ffordd ac yn byw. Trowch, trowch o'ch ffyrdd drwg! Pam y byddwch farw, O dy Israel?*" (Eseciel 33: 11; llun: Proffwyd Eseciel gan Michelangelo (Buonarroti) 1475 - 1564 yng Nghapel Sistine, y Fatican, Rhufain) Fe'n hatgoffwyd o'r cefndir hanesyddol. 'Roedd yr Asyriaid wedi ennill y brwydrau yng Ngogledd Israel gan wthio'r Israeliaid i'r de, i diroedd Jwda. Parhau gwnaeth y brwydro ac yn 597 CC llwyddodd Nebuchadnesar i drechu Jerwsalem; hyn arweiniodd i'r gaethglud ym Mabilon. Dyma'r adeg y bu i'r Israeliaid wyro a dechrau addoli duwiau gau; yn y cyd-destun hwn y bu i Dduw, trwy Eseciel, ymbil arnynt: "*Trowch, trowch o'ch ffyrdd drwg!*"

Onid oes yna debygrwydd rhwng y cyfnod a ddisgrifir ym Mhroffwydoliaeth Eseciel â Chymru 2011, gofynnodd ein Pregethwr Gwadd? Onid yw'n cyd-wladwyr yn ymhyfrydu mewn duwiau gau? Beth yw gwrthrychau addoliad yn 2011? Yr un, yn ôl ein Cennad Gwadd fyddai ymbil Eseciel heddiw - ymbiliad arnom i droi o dywyllwch ein bodolaeth hunan canolog a difethol at oleuni a gobaith ein Harglwydd Iesu Grist. Geilw Eseciel arnom i ail-ymgysegru ein hunain ym Mis Medi 2011; cynnig Duw, trwy ei fab, obaith i'n dwyn o'n "*ffyrdd drwg*". Sicrhau bywyd i Blant Dynion yw meddylfryd Duw nid "*marwolaeth y drygionus*" - dyna a gynigir i ni trwy'r hyn a ddigwyddodd ar Groes Calfaria. O gofio mai Sul Ail-gydio oedd heddiw i ni yn Eglwys Minny Street mor addas y geiriau y bu i ni eu cyd adrodd ar ddiwedd y bregeth:

"Addo wnaf i ti, fy Nuw,
rodio'n ufudd tra bwyf byw,
meithrin ysbryd diolchgar, mwyn,
meddwl pur heb ddig na chwyn.

Addo wnaf i ti fy Nuw,
wneud fy ngorau tra bwyf byw,

cymwynasgar ar fy nhaith,
nod gwasanaeth ar fy ngwaith" …

(Tudor Davies; *C.Ff.* 766)

Cafwyd cyfle i barhau'r gymdeithas dros gwpaned yn Festri Minny Street ar ddiwedd yr oedfa. Cyflwynwyd yr offrwm i'n Helusen am eleni, ***Ambiwlans Awyr Cymru***. Diolch i Dduw am Ŵyl Flynyddol fendithiol eleni eto; boed i ni, aelodau Eglwys Minny Street, ymrwymo i gyflwyno ein gorau ar allor gwasanaeth ein Harglwydd.

Yn un o'i **Lythyron Agored** achlysurol i Eglwys Minny Street soniodd ein Gweinidog sut y bu iddo droi i mewn i Gadeirlan Llandaf a chael ei daro gan ddefosiwn y gynulleidfa yn y munudau cyn i'r oedfa gychwyn. Neb yn torri ar yr heddwch trwy fân siarad; cynulleidfa o ddifrif ac yn amlwg yno i addoli. Mor bwysig, meddai'r Gweinidog, yw creu awyrgylch addas i Dduw cyn dechrau oedfa er mwyn i Dduw ei hun ddod atom i'n bendithio.

Siwan Jones, Llŷr Lewis a Gwilym Siôn Pritchard, dau o aelodau ac un cyn-aelod ***Wedi 7***, ynghyd â Hefin Jones oedd yn arwain **Oedfa'r Bore ar Radio Cymru** fore heddiw. Oedfa arbennig oedd hon wedi ei anelu at fyfyrwyr sydd yn gadael cartref ac yn symud i Brifysgolion yn ystod yr wythnosau nesaf. Ynddi cafwyd tystiolaeth bersonol gan y pedwar o sut mae arddel Ffydd a bod yn rhan o gymdeithas yr Eglwys Gristnogol yn medru bod o fudd a chymorth wrth gychwyn cam newydd ar lwybr bywyd.

Cyfeirir at ymdrechion elusennol Eglwys Minny Street yn ystod 2010 - 2011 tuag at y '***Stafell Fyw*** yn rhifyn cyfredol *Y Tyst*. Mewn adroddiad ar Agoriad Swyddogol y datblygiad cyffrous a newydd hwn soniwyd am y '*Stafell Fyw* fel '*enghraifft ogoneddus o Gristnogaeth ymarferol*'; gwelwyd hefyd lun o'n cerddorion ifanc (aelodau ***PIMS***) a fu'n diddanu'r gynulleidfa a'u talentau cerddorol. Gofyn cwestiynau ynglŷn â ffurf ein ***Gwasanaeth Derbyn i Gyflawn Aelodaeth*** a wna'r Gweinidog mewn erthygl ym *Mhedair Tudalen Gydenwadol* o'r un rhifyn o'r *Tyst* - ai taflu ein pobl ifanc i mewn i'r dyfroedd dyfnion a wnawn heb nofio gyda hwy a wnawn? A ddisgwyliwn ormod oddi wrthynt wrth ofyn iddynt gyffesu eu Ffydd? Oni ddylai'r eglwys ymrwymo yn llawer mwy eglur i gyd-gerdded gydag aelodau newydd? Cwestiynau dyrys a dwys , ond cwestiynau sydd angen eu gofyn!

Trychineb Glofa Gleision, Cilybebyll – 16 Medi 2011

Estynnwn fel eglwys ein cydymdeimlad a'n cariad i deuluoedd y pedwar glöwr a gollodd eu bywydau yng Nglofa Gleision Cilybebyll. Gweddïwn trostynt a chofiwn hefyd am y gymuned o'u hamgylch ym Mhontardawe (llun: Cerflun Coffa Trychineb Glofa Chwe Chloch (1960) gan Sebastian Boyesen)

"*Ein Duw a'n Tad, nesâ at y rhai sy'n galaru. Bydd iddynt yn noddfa a nerth, ac yn gymorth parod mewn cyfyngder. Boed i'r teuluoedd, yng nghanol eu galar, adnabod y cariad na ŵyr y byd amdano - y cariad dwyfol a orchfygodd farwolaeth ac a agorodd byrth y bywyd tragwyddol, yn Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.*"

Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: *beibl.net* – 15 Medi 2011

Wrth agor y cyfarfod fe'n cyfeiriwyd gan Lywydd y Cyngor, y Parchedig Menna Brown, i gofio am y pedwar glöwr sy'n gaeth bron 300 troedfedd o dan y ddaear ym Mhwll Gleision yng Nghilybebyll, Pontardawe. Gweddiwn ar i Dduw estyn ei gariad a'i ofal trostynt wrth i'r timau achub weithio i'w cyrraedd.

Faint ohonoch sydd wedi troi i wefan ***beibl.net***? Mae aelodau ifanc Ysgolion Sul yn gyfarwydd iawn a'r adnodd werthafwr hon – Llyfrau'r Beibl yn eu hiaith. Arfon Jones fu'n annerch cyfarfod y Cyngor heno ac wrth ei cyflwyno soniodd Llywydd y Cyngor, y Parchedig Menna Brown, am waith Arfon gyda Chyngor Cymru ar Alcohol a Chyffuriau Eraill, fel Swyddog Ieunectid Undeb yr Annibynwyr Cymraeg a gyda'r Gynghrair Efengylaidd cyn iddo gael ei apwyntio yn Swyddog Maes yr elusen Gobaith i Gymru (*GiG*).

Fersiwn gyfoes o'r Beibl yw *beibl.net*, sydd wedi ei anelu yn bennaf at bobl ifanc a dysgwyr. Mae hefyd yn cynnwys adnoddau ar gyfer Ysgolion Sul a gwasanaethau eglwysi. Yn ôl Arfon, "*Mae* beibl.net *yn aralleiriad cwbl wreiddiol o'r Testament Newydd. Dydy o ddim yn ddiwygiad o unrhyw fersiwn Cymraeg, nac yn gyfieithiad o unrhyw fersiwn Saesneg. Er mai fi sydd wedi ei ysgrifennu, mae llawer iawn o bobl wedi cyfrannu sylwadau a syniadau ar sut i wella'r drafftiau cynnar. Ymdrech sydd yma i fynegi neges y Testament Newydd mewn iaith lafar syml.*" Cafwyd sgwrs hynod o ddiddorol, ac addysgiadol gan Arfon ar ddyheuadau pobl am adnoddau digidol, ar sut i gyfieithu a throsi, beth yw iaith lafar, a sut i ddefnyddio iaith a geiriau. Fe'n hatgoffwyd mai mewn *Koine*, sef iaith Roeg Gyffredin y cyfnod 300 CC - 300 AD, yr ysgrifennwyd y Testament Newydd yn wreiddiol, yn hytrach na'r Roeg Glasurol. Soniodd hefyd am y diffyg dealltwriaeth o ystyr geiriau megis gras, cyfiawnhad, prynedigaeth, dyhuddiant, henuriaid a thafodau - sut mae cyfleu ystyr rhain i'n pobl ifanc? Ers Awst 2011 mae cyfieithiad *beibl.net* o Efengyl Marc ar gael fel llyfr argraffedig. Daeth Arfon a'r cyfarfod i'w derfyn trwy gyflwyno darnau o'r Testament Newydd - y naill o'r Argraffiad Diwygiedig a ddefnyddiwn yn ein heglwysi a'r llall o *beibl.net*:



"*Oherwydd, "gerbron Duw ni chyfiawnheir neb meidrol" trwy gadw gofynion cyfraith. Yr hyn a geir trwy'r Gyfraith yw ymwybyddiaeth o bechod.*" (Rhufeiniaid 3: 20; Argraffiad Diwygiedig)

"*'Does neb byw yn gallu bod yn iawn gyda Duw trwy wneud beth mae'r Gyfraith Iddewig yn ei ofyn. Beth mae'r Gyfraith yn ei wneud go iawn ydy dangos ein pechod i ni." (Rhufeiniaid 3: 20;* beibl.net)

Bydd cyfarfod nesaf y Cyngor yn **Eglwys Bethlehem, Gwaelod y Garth** ar **10 Tachwedd 2011**. Wynford Ellis Owen, Prif Weinyddwr Cyngor Cymru ar Alcohol a Chyffuriau Eraill bydd yn annerch, gan ganolbwyntio ar ddatblygiad yr Ystafell Fyw.

Munud i Feddwl – 14 Medi 2011



Ple fyddwch chi'n siopa? Yn yr Archfarchnad neu'r Siop Gornel? Mae'r Siop Gornel yn cynnig rhywbeth cwbl wahanol i'r Archfarchnad. Ydy, mae'r Archfarchnad yn ***haws*** ond mae'r Siop Gornel yn ***well***! Onid y gamp yw sicrhau bod ein silffoedd yn llawn o nwyddau ffres ac o safon dda? Cynnig y Gweinidog ganllaw i ni yn ei **Funud i Feddwl** ar ble i siopa!

Koinônia P'nawn – 14 Medi 2011

Braf oedd ail-gydio yn ein cymdeithas dros ginio. Er bod y bwyty ar ei newydd wedd, 'roedd ein cwmni ninnau mor ddiddan a bendithiol a phob amser. Cyfle i ddal i fyny â'n gilydd ar ôl gwyliau'r haf.

Bethania: Fesul Cam trwy Efengyl Mathew – 13 Medi 2011

Cafwyd cychwyn rhagorol i dymor newydd o Fethania gydag 11 wedi dod ynghyd i ddechrau ar daith, fesul gam, trwy Efengyl Mathew. **Hanes Porthi'r Pum Mil** (Mathew 14: 13 - 21) a **Cherdded ar y Dŵr** (Mathew 14: 22- 33; llun - St Peter Invited to Walk on the Water gan Francois Boucher (1703 - 1770)) Cafwyd) oedd themâu trafodaethau heno. Gofynnwyd beth oedd, ac yw, arwyddocâd y wledd? Ai gwledd sacramentaidd oedd neu act wyrthiol i liniaru angen a phoen pobl? Wrth astudio cefndir Hanes Cerdded ar y Dŵr, nodwyd mai dim ond Mathew sy'n cofnodi ymgais Pedr i gerdded ar y tonnau. Ceir rhai yn dadlau bod yr hanesyn hwn yn dangos rheolaeth Iesu ar rym natur; cred eraill mai gwynt a chwythodd y cwch i'r lan! Datguddia'r ddau hanesyn Iesu fel un sy'n drech nag anghenion corfforol, moesol ac ysbrydol pobl. Daw'n eglur trwy fyfyrio ar yr adnodau bod Iesu yn Arglwydd ar fywyd i gyd - y cyfan ohono! Cwyd y ddau hanes nifer o gwestiynau: beth yw cysylltiad yr Efengyl ag anghenion corfforol pobl? A yw'n iawn ceisio egluro gweithredoedd nerthol yr Efengyl trwy ddadansoddiad rhesymol? Pam methodd Pedr rodio ar y tonnau?

PIMS: Emyn David Charles - 12 Medi 2011

"O Iesu mawr, rho d'anian bur
i eiddil gwan mewn anial dir,
i'w nerthu drwy'r holl rwystrau sy'
ar ddyrys daith i'r Ganaan fry."

(David Charles 1762 – 1834; *C.Ff.* 686)

Ar ôl hir-ddisgwyl ail-gychwynnodd sesiynau *PIMS* heno; pawb erbyn hyn wedi dychwelyd o'u gwyliau haf. Braf oedd cael croesawu aelodau newydd. Trin a thrafod emyn bydd *PIMS* yn ei wneud eleni. Hen emyn! Emyn a ysgrifennwyd gan David Charles, a anwyd yn 1762; 'roedd yn frawd i Thomas Charles o'r Bala (1755-1814). Heno bu *PIMS* yn dadansoddi ystyr "*anian bur*" a chysylltu'r syniadaeth ynghlwm yn y geiriau â'r hyn ddywed Iesu yn y **Bregeth ar y Mynydd** (llun: The Sermon on the Mount gan Carl Bloch (1834 - 1890))**.** Yno ceir Y Gwynfydau (Mathew 5: 3 - 12), sef disgrifiad o anian (natur) y Cristion. Bu trafodaeth drwyadl ar sut mae gwir Gristnogaeth yn dechrau gyda'r **anian**, gyda'r natur oddi mewn, ac o'r natur oddi mewn daw'r ymddygiad a'r gweithredoedd allanol. **Jac a Daniel oedd gohebwyr *PIMS* heno**. Meddent: "*prif neges y cyfarfod oedd pwysigrwydd natur dda a charedig - yr anian bur. Buom yn siarad am bobl dda a phobl ddrwg. A oes da ym mhawb? - Hyd yn oed terfysgwyr? Rhaid i beth a wnawn fel Cristnogion ddod o'r natur dda a chawn o'n perthynas ag Iesu."* Dros y penwythnos sy'n dod bydd *PIMS* ar ei Penwythnos Flynyddol yng Ngholeg yr Iwerydd – mae yna ddisgwyl eiddgar!



Ciwb Rubik, Argon a Mathew – 11 Medi 2011

Cawsom gyfle yn ystod Oedfaon y Sul i gofio am yr hyn a ddigwyddodd yn Efrog Newydd, y Pentagon a Phensylfania yn Unol Daleithiau America 10 mlynedd yn ôl. Prin fod neb wedi anghofio sut y'n syfrdanwyd wrth wylio'r awyrennau yn dinistrio'r adeiladau a sylweddoli bod dros 3,000 wedi eu lladd; cofiwn o hyd am erchylltra'r digwyddiad. "*Arglwydd, ein Duw, bydd gyda dy bobl ar draws y byd wrth iddynt gofio digwyddiadau 11 Medi, 2001. Cofiwn am y dewrder a ddangoswyd, y gwasanaeth anhunanol a gynigiwyd, yr aberth dros eraill a wnaethpwyd a'r bywydau gwerthfawr a gollwyd. Diolch am ymdrechion pobl ers hynny i herio'r cynnydd mewn ofn, amheuaeth a diffyg ymddiriedaeth a ddaeth yn sgìl y trychineb. Drwy gydweithio ar draws ffiniau crefydd, chwalwyd rhwystrau, adeiladwyd perthynas gadarnhaol, a gwelwyd ymrwymiad i greu cymdeithas gwir gytûn. Y penwythnos hwn, cofiwn a gweddïwn dros y rhai a ddioddefodd o frawychiaeth, condemniwn ddefnyddio crefydd i gyfiawnhau trais ac anogwn bobl o bob ffydd a diwylliant i barhau i gydweithio fel y medrwn fyw yn ôl dy fwriad - ochr yn ochr gan ddeall a pharchu ein gilydd. Amen*" (Addasiad o Ddatganiad gan Archesgob Cymru, Dr Barry Morgan, ac Ysgrifennydd Cyffredinol Cyngor Mwslimiaid Cymru, Saleem Kidwai gan Mair Treharne)

Ciwb Rubik oedd testun sylw'r Gweinidog yn yr **Oedfa Foreol Gynnar**. Fe'n hatgoffwyd pa mor anodd y gamp o gael y lliwiau at ei gilydd fel bod pob un o chwe ochr y ciwb yn unlliw cyfan.

"*Oeddech chi'n arfer drysu'n llwyr?*", gofynnodd! "*Oeddech chi'n arfer mynd yn grac? Oeddech chi'n arfer siomi?*" Er hynny, cytunwyd mai mawr y mwynhad o ymateb i'r her o geisio cael y cyfan i'w lle, yn dwt ac yn daclus. Rhywbeth tebyg yw bywyd eglwys! Weithiau gall bywyd eglwys ein drysu, ein gwneud yn grac, ein siomi a'n diflasu. Ond mae'r ymwneud bob amser yn sialens ac onid bendith i bawb, o bob oedran, wrth weithio a chydweithio i gael y cyfan oll i'w lle, yw gweld Duw ar waith ynom a thrwom. Dangosodd y Gweinidog giwb arall i ni - un a phob ochr yn binc! Pa ffordd bynnag y troir hwn, mae'r ciwb bob amser yn gyflawn! Y cyfan yn ei lle, bob amser! Onid ciwb diflas yw ciwb o'r fath? Nid oes yma unrhyw sialens ac o ganlyniad nid oes yna unrhyw fendith na boddhad. Cymaint anos y Ciwb Rubik - ond cymaint gwell na'r ciwb diflas unlliw. Beth am yr her i ni yn Eglwys Minny Street: cael popeth i'w le yn ystod y flwyddyn waith? Tebyg na lwyddwn oherwydd bod cymaint o wahanol liwiau, ond awn ati! Ymdrechwn a chydweithiwn yn enw ac er gogoniant ein Harglwydd. Bu'r gynulleidfa hefyd yn dysgu gweddi syml a fydd yn cael eu defnyddio yn ein hoedfaon ar Fore Sul:



"*Dy fendith, nefol Dad*
Fo ar dy blant i gyd
A boed dy adain dros ein gwlad
A'th heddwch dros y byd."



Cafodd y gwyddonwyr yn ein mysg wledd o bregeth yn yr **Oedfa Foreol**! Yn 1869, cyhoeddodd Dmitri Ivanovich Mendeleyev (1834- 1907; llun - Dmitri Mendeleyev gan Ilya Repin (1844 - 1930)) Tabl Cyfnodol yr elfennau. Nodwedd hollbwysig y Tabl oedd bod Mandeleyev wedi sylweddoli bod llawer o elfennau heb eu darganfod; gadawodd leoedd gwag iddynt! Soniodd y Gweinidog sut y ceir, yn y Tabl Cyfnodol (llun: Cerflun o Dmitri Mendeleyev a'i Dabl Cyfnodol, St Petersburg, Rwsia), popeth sydd ei angen ar gyfer bywyd yn ei gyfanrwydd - o'r *alwminiwm* a *haearn* hynod gyffredin i'r *protoctiniwm* a *lwtetiwm* prin. Fe'n hatgoffwyd sut y gofidiwn am y *plwm* yn ein tanwydd, tra llygra *mercwri* (arian byw) bysgod ein hafonydd ac *arsenig* ein ffynhonnau. Mae *carbon*, *nitrogen*, *ocsigen* a *hydrogen* yn hanfodol i fywyd, ac mae *ffosfforws* yn annatod bwysig yn DNA ein genynnau. Llywiodd yr elfennau hanes y byd: masnach, anturiaeth, imperialaeth, rhyfel a chreulondeb. Y nwy **Argon** a dderbyniodd ein sylw fore heddiw. Un o'r nwyon anadweithiol, sy'n cynrychioli 0.93% o'r atmosffer. Llonyddwch yw cyfrinach Argon. Oherwydd ei lonyddwch, defnyddir Argon, er enghraifft, i lenwi lampau ffilament (bylbiau golau). Gan nad yw'n ymateb i wres y

ffilament parha'r golau i dywynnu - byddai'n stori gwbl wahanol pe llenwid y bwlb ag ocsigen! "*Onid aethom yn eglwysi ffwdanus sy'n adweithio i bopeth, gan feddwl bod rhaid ymateb i bob digwyddiad?*" gofynnodd y Gweinidog. "*Onid eglwysi llonydd sydd eu hangen arnom?*" Anogaeth y Salmydd yw:- "*Ymlonyddwch, a deallwch mai myfi sydd Dduw,…*" (Salm 46:10a). Oddi mewn i'r bwlb ceir yr Argon llonydd a'r ffilament. Y ffilament sy'n llosgi'n llachar gan ledu goleuni. Ein gwaith yw ymlonyddu ac ymdawelu a chaniatáu i oleuni Crist ddisgleirio. "*Meddai yntau wrthynt, "Bwriwch y rhwyd i'r ochr dde i'r cwch, ac fe gewch helfa.*" (Ioan 21: 6a) Nid oedd pall ar egni a brwdfrydedd y disgyblion - buont wrthi yn taflu eu rhwydi i'r ochr chwith! Rhaid oedd i Iesu ffrwyno eu brwdfrydedd; gwastraff ar egni yw brwdfrydedd wedi'i gyfeirio yn anghywir. Yn 2011, mae'r Eglwys yn frwdfrydig ac yn eiddgar i wneud, i ymateb, i helpu ac i ddatrys. Da yw hyn, ond ai brwdfrydedd yn y cyfeiriad cywir ydyw? Nid da eglwys segur! Cofiwn nad segur eglwys lonydd! **Sicrha eglwys lonydd, tawel, pwyllog ac amyneddgar bod Goleuni Ffydd, Disgleirdeb Gobaith a Gwres Cariad yn ymledu.** Onid dyna waith yr eglwys leol?



Troi at Efengyl Mathew a wnaethom yn yr **Oedfa Hwyrol**. Mewn ***Homili Agoriadol*** cawsom gyfle i fyfyrio ar gwestiwn yr Arglwydd Iesu: "*A chwithau … pwy meddwch chwi ydwyf fi?*" (Mathew 16: 15; llun: Pwy meddwch chwi ydwyf fi? gan Linda Todd (The Glasgow Passion))**.** "*Pwy*", gofynnodd y Gweinidog, "*y mae pobl yn dweud yw Mab y Dyn?*" Fe'u galwyd gan ei gyfoedion yn Frenin yr Iddewon, Mab Mair, Goleuni'r Byd, Proffwyd, Gwaredwr a Meseia. Fe'i galwyd hefyd yn ynfytyn, yn feddwyn glwth a chyfaill Publicanod! Clywir amdano mewn cymaint o wahanol ffyrdd, am gymaint o wahanol resymau. Sôn rhai yn dda amdano, eraill yn ei ddilorni a'i watwar. Mae Iesu'n destun siarad hawdd ond, rhybuddiodd y Gweinidog, bod yna gwestiwn llawer pwysicach: "*A chwithau … pwy meddwch chwi ydwyf fi?*" Efallai mai mater o aeddfedu yw symud o beth ddywed pobl eraill am Iesu i beth ddywedwn ni amdano. Efallai mai mater o ffurfio Ffydd ydyw neu addysgu ein hunain. Wrth i'n gwybodaeth am Iesu dyfu a chynyddu, daw ceisio ateb y cwestiwn "*pwy meddwch chwi ydwyf fi*" yn haws ond, er mor werthfawr, annigonol yw aeddfedu yn y Ffydd, ffurfio Ffydd a dysgu'r Ffydd. Erys y cwestiwn mawr heb ei lawn ateb! Daw i bawb ohonom rywbryd, rywsut yr ymwybyddiaeth bod yr hyn a ddywed eraill am Iesu yn annigonol. Ni allwn bwyso rhagor ar syniadau benthyg ac argyhoeddiadau pobl eraill. Rhaid dweud beth a ddywed ein calon amdano - beth a ddywed Duw wrthym ni amdano. Mae ateb y cwestiwn cyntaf yn dasg ddiddorol. **Mae ateb y cwestiwn *"A chwithau ... pwy meddwch chwi ydwyf fi?"* yn gwbl angenrheidiol!**

"*O'r amser hwnnw y dechreuodd Iesu ddangos i'w ddisgyblion fod yn rhaid iddo fynd i Jerwsalem, a dioddef … a'i ladd, a'r trydydd dydd ei gyfodi.*" (Mathew 16: 21) oedd testun ***Ail Homili'r Oedfa Hwyrol***. Nid dweud na dysgu, ond dangos! Gellir anghofio'r dweud a chamddehongli'r dysgu. Rhaid edrych, syllu a gweld yr hyn ddangosir! Gwelai Iesu derfyn i allu geiriau; rhaid oedd dangos - Y Gweddnewidiad, iachau bachgen â chythraul ynddo a galw plentyn i sefyll yn eu canol er mwyn dangos gwerth plentyn a gwerth y darostyngedig. Anodd bu'r dangos gan mai amhosibl oedd dangos dioddefaint Jerwsalem heb

ddangos y Groes. Ai dyma sydd ar goll yn ein heglwysi yn 2011? Parod iawn ydym i ddangos Buddugoliaeth y Pasg ond llawer llai parod i ddangos y Groes. Aeth 10 mlynedd heibio ers ymosodiadau erchyll 11 Medi 2001. Os ydy'r fath ymosodiadau'n bosibl ac os oes pobl fel Anders Behring Breivik yn lladd a pheri'r fath ddioddefaint, rhaid wrthym, fel Cristnogion, i fod ar waith yn y byd yn dangos y Groes, ac yn dangos bod gan ein Ffydd rhywbeth o werth i ddweud am ddolur a phoen. I wneud hynny, er mwyn medru bod yn gyfryngau bendith, rhaid i bob eglwys ganiatáu i Iesu **ddangos** inni *"fod yn rhaid iddo fynd i Jerwsalem, a dioddef...a'i ladd, a'r trydydd dydd ei gyfodi."* A'r her i ni yn Eglwys Minny Street? **Cydio yn nwylo'n gilydd, cymryd anadl ddofn, a throi i edrych a gweld!**



Aelodau'r Teulu Lotwick oedd wedi dewis emynau ein Hoedfa Hwyrol. Wrth gyflwyno "*Arglwydd Iesu, dysg im gerdded …*" (Elfed 1860-1953; *C.Ff.* 710) cyfeiriodd Siân am y cysylltiad rhwng y geiriau "*mae yn olau ond cael gweld dy wyneb di*" â llun Holman Hunt (1827 – 1910; llun - The Light of the World gan Holman Hunt (1854)) o'r Iesu yn curo wrth y drws â llusern yn ei law. "*Gair Disglair Duw*" (Graham Kendrick *cyf.* Casi Jones; *C.Ff.* 228. Hawlfraint 1991 *Make Way Music*) oedd dewis Iona; geiriau'r emyn yn ein hatgoffa cymaint yr angen am Dduw yn ein byd heddiw. Meddwl am y byd a'i drafferthion 'roedd Catrin hefyd wrth ddewis "*Dyro dy Gariad*" (Dave Bilbrough *cyf* Catrin Alun, a Sion Aled; *C.Ff.* 871. Hawlfraint 1979 *Kingsway Thankyou Music*) - "*mewn byd lle mae casineb a thrais yn amlwg*", meddai , "*mae'r geiriau yn ein hatgoffa o bwysigrwydd caru a pharchu ein gilydd*". "*Dyma gariad fel y moroedd*" (Gwilym Hiraethog 1802-83; *C.Ff.* 205), un o Emynau'r Diwygiad oedd dewis Gareth, yntau yn sôn sut ein hatgoffir gan eiriau'r emyn o gariad anferthol Duw yn anfon ei Fab i farw trosom. "*Iesu yw'r ateb i holl ofyn ein byd,*" meddai, "*a hiraethwn am weld pobl yn dod i'w adnabod, a derbyn o'i ras a'i gariad".*

Cafwyd cyfle yn ystod y dydd, trwy'r ***Cylch Dinasyddiaeth***, i estyn cymorth a chefnogi ein brodyr a chwiorydd yng Nghaerdydd, a ledled ein gwlad a'n byd. Bu'r **Stondin Masnach Deg** yn hynod brysur ar ôl gwyliau'r haf; derbyniwyd hefyd nifer o gyfraniadau bwyd i **Fanc Bwyd Caerdydd** a dillad i **Brosiect Cymunedol Eglwys Fair Pen-rhys**. Yn ystod y prynhawn, bu nifer o aelodau yn rhannu brechdanau wedi eu paratoi gan gyd-aelodau ymysg **digartref Caerdydd** yn Festri'r Tabernacl. Bu'n brynhawn prysur gyda thros 60 o ymwelwyr; rhai yn mwynhau cwpanaid o de a rhywbeth i'w fwyta, eraill wedi galw i mewn am sgwrs a chymdeithas. Sul bendithiol, yn llawn her, ar ddechrau wythnos brysur gyda *PIMS*, Bethania, Koinônia P'nawn a Chyfarfodydd Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd yn ail-gychwyn.

Agoriad Swyddogol *'Stafell Fyw Caerdydd* - 8 Medi 2011

Llawenydd mawr i ni fel eglwys oedd cael bod yn rhan heno o Agoriad Swyddogol *'Stafell Fyw Caerdydd* yn 58 Heol Richmond. Dyma oedd Elusen yr Eglwys yn 2010 - 2011 ac bu'n fraint i gyfrannu i ddatblygiad y ganolfan arbennig hon ar gyfer pobl sy'n dioddef o ganlyniad i gam-drin alcohol neu gyffuriau. Wedi nifer o areithiau teimladwy, torrwyd y rhuban ac agorwyd y drysau gan Faer Caerdydd, y

cyngor cymru ar alcohol a chyffuriau eraill
the welsh council on alcohol and other drugs

Cynghorydd Ifor Delme Bowen. Bu cwmni o'n pobl ifanc yn diddanu'r dyrfa niferus a ddaeth ynghyd i ddymuno'n dda i'r fenter holl bwysig hon.

Munud i Feddwl – 7 Medi 2011

Ymarfer, ymarfer ac ymarfer eto fyth! Oes, mae rhaid ymarfer yn aml ac yn drwyadl i gyrraedd safon y feiolinydd byd-enwog Joshua Bell (*gan.* 1967; llun - Joshua Bell - Neuadd Carnegie 2009). Tebyg na welwn ni byth Weinidog presennol Eglwys Minny Street yn perfformio ar lwyfan Neuadd Carnegie yn Efrog Newydd ond mae'n ein hatgoffa yn ei **Funud i Feddwl** wythnos mor bwysig yw i ni ehangu ein *repertoire* ysbrydol ... ac, yn ei dyb e', does dim llawer o wahaniaeth mewn gwneud hynny â chanu offeryn cerdd!

Cwrdd Gweddi: *Ein Duw Mawr* - 6 Medi 2011

"*Ymlonyddwch, a deallwch mai myfi sydd Dduw …*" (Salm 46: 10) oedd yr anogaeth gychwynnol i Aelodau Eglwys Minny Street wrth iddynt ddod at ei gilydd i ofyn i Dduw am arweiniad a bendith ar ddechrau blwyddyn waith newydd. Gan eistedd mewn cylch, arwydd o Gymdeithas Gristnogol, treuliwyd orig dawel o fyfyrdod yn ystyried '***yr Arglwydd, ein Duw Mawr***'. Cawsom ein tywys drwy gymalau cyfarwydd o'r Gair a'n harwain at gyfnodau o weddi gan ganolbwyntio, yn eu tro, ar Ein Duw Mawr Sanctaidd, Ein Duw Mawr Doeth, Ein Duw Mawr Cyfiawn a Thrugarog, ac Ein Duw Mawr Cariadlawn. Wrth ein bod yn tynnu at derfyn ein myfyrdod daeth yr anogaeth: "*Llawenhewch yn yr Arglwydd bob amser;*" (Philipiaid 4:4) ac, o wneud hynny, i fynd allan mewn llawenydd wrth ail-gydio yn ein cenhadaeth dros yr Arglwydd.

Aberthu Anifeiliaid, Porthi'r Pum Mil a Gweddïo - 4 Medi 2011

Sarah supplies Abraham Hagar gan Adriaen van der Werff (1659-1722)Ar ôl bendithion cyd-addoli dros Fis Awst gyda'n cyd-Gristnogion ar draws Caerdydd fe'n croesawyd, fore heddiw, yn ôl i gapel Eglwys Minny Street gan y Gweinidog ar gychwyn blwyddyn newydd o waith i'r Arglwydd. Cychwynnwyd cyfres newydd o **Fyfyrdodau'r Mis** y mis diwethaf - canolbwyntia rhain ar Ferched yr Hen Destament a'r mis hwn, dwy ferch, Sarai (Sara) a Hagar, sydd yn destun sylw. Llun grymus a threiddgar Caravaggio (1571 - 1610), *Conversion of Saint Paul*, a ddaw o dan y chwyddwydr yn **… ac Ati**. Y mis hwn cychwyn cyfres newydd o **Ddarlleniadau Dyddiol**; cyfle i ddod i adnabod y Beibl yn well dros y 12 mis nesaf.

Cychwyn ar ein taith ar ddwy o Themâu'r Flwyddyn a wnaethom yn **Oedfa'r Bore** - '***Lefiticus***' a '***Cham wrth Gam trwy Efengyl Mathew***'. Adnodau agoriadol Llyfr Lefiticus oedd testun y cyntaf o Homilïau'r Bore "*Galwodd yr Arglwydd ar Moses a llefaru wrtho o babell y cyfarfod a dweud: "Llefara wrth bobl Israel a dywed wrthynt, 'Pan fydd unrhyw un ohonoch yn dod ag offrwm i'r Arglwydd, dewch ag anifail o'r gyr neu o'r praidd yn offrwm.'*" (Lefiticus 1:1-2; llun - *Aberthu anifeiliaid ar yr allor tu allan i'r Tabernacl. Hawlfraint: Mishken Ministries*)

Er bod y syniad o aberthu anifeiliaid yn gwbl estron i ni yn Eglwys Minny Street yn 2011 fe'n darbwyllwyd gan y Gweinidog bod yr anifail â aberthir yn cynrychioli'r creadur sydd ynom. Hanfod ffydd yw dod â'r creadur hwnnw o dan reolaeth Ewyllys Duw, gan osod y cyfan ar allor ufudd-dod a gwasanaeth. "*Wrth ddod at Dduw y gamp yw dod, nid â dim ond yr elfen ysbrydol, ond yr hyn oll ydym*", meddai. Rhaid gosod y cyfan ar allor gwasanaeth i Dduw; cynigiwn i Dduw y pethau hynny sydd yn gwthio Duw i ffwrdd. Dyma'r union bethau a all ein harwain yn nes ato.

"***Dim Byd a Rhywbeth***" oedd pennawd pryfoclyd yr ail Homili. Yn seiliedig ar eiriau'r Arglwydd Iesu Grist yn Hanes Porthi'r Pum Mil: "*Nid oes rhaid iddynt fynd ymaith. Rhowch chwi rhywbeth iddynt i'w fwyta iddynt*" (Mathew 14:16; llun: Feeding the Five Thousand gan Georges Roualt (1871-1958)) tanlinellodd y Gweinidog sut y try Iesu'r hyn a feddyliwn ni sy'n '*ddim byd'* i fod yn '*rhywbeth*' gwerthfawr. Beth yw'r neges i ni aelodau Eglwys Minny Street? 'Roedd yr her yn amlwg ddigon! Mae cymaint ohonom yn Eglwys Minny Street â '*rhywbeth*' pwysig i'w gynnig i fywyd yr eglwys yn gwbl argyhoeddedig bod ein '*rhywbeth*' yn '*ddim byd'*! Anghofiwn y try pob '*dim byd*' yn '*rhywbeth*' holl bwysig a deinamig yng ngofal ein Harglwydd. Her, felly, i ni ar ddechrau blwyddyn i ymwrthod â'r syniad nad oes gennym ddim byd i'w gynnig i waith Crist yn ein Heglwys leol. Er ein bod hoffi cuddio tu nôl i hyn, apêl a gawsom o'r pulpud i fentro a chynnig i Iesu ein '*dim byd*'.



"*Llawenhewch gyda'r rhai sy'n llawenhau, ac wylwch gyda'r rhai sy'n wylo*" (Rhufeiniaid 12: 15).

Dyna ddywed yr Apostol Paul wrthym yn ei lythyr at y Cristnogion cynnar yn Rhufain. Cawsom ninnau o flaen **Bwrdd y Cymun** gofio am y teuluoedd hynny yn ein plith sydd mewn galar. Bu nifer o'n haelodau, gan gynnwys rhai o Blant yr Eglwys, yn yr ysbyty dros yr haf a chawsom gyfle i ddanfon ein cyfarchion iddynt. Braf hefyd oedd cael cyfle i longyfarch tri chwpl a fu'n dathlu eu Priodas Aur yn ystod y mis a aeth heibio, dau o'n haelodau wedi dathlu eu pen-blwydd yn 90 a 95, a nifer fawr wedi llwyddo mewn gwahanol ffyrdd yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac arholiadau ysgol. Cafwyd bendith o rannu'r elfennau yn ein mysg a chofio Aberth Fawr ein Harglwydd. "*Myfi yw bara'r bywyd. Ni bydd eisiau bwyd byth ar y sawl sy'n dod ataf fi, ac ni bydd syched byth ar y sawl sy'n credu ynof fi … Ni fwriaf allan byth mo'r sawl sy'n dod ataf fi.*" (Ioan 6: 35 a 37b) Derbyn cyfarwyddiadau ynglŷn â gweddïo a wnaethom yn yr **Oedfa Hwyrol**. Gweddi, wrth gwrs, yw calon crefydd fyw a hanfod ffydd a bywyd y Cristion. Er hyn, dyma'r agwedd yr

esgeuluswn mwyaf ohoni hynny am i ni fethu sylweddoli mai rhywbeth i'w ddysgu yw gweddïo. I'm cymorth i wneud hyn fe'n harweiniwyd gan y Gweinidog at eiriau Paul: "*Yn y lle cyntaf felly, yr wyf yn annog bod ymbiliau, gweddïau, deisyfiadau a diolchiadau yn cael eu hoffrymu dros bawb,* …" (1 Timotheus 2: 1) a chanolbwyntio ar dri chanllaw. Yn gyntaf, ***blaenoriaeth gweddi***. Wrth ysgrifennu at Timotheus pwysleisia Paul bwysigrwydd blaenoriaethu gweddi. Ceisia Paul sicrhau Timotheus y bydd, o weddïo, yn adfer ei nerth, yn cadarnhau ei gariad, yn bywhau ei obaith ac yn ailgynnau fflam ei ffydd. Yn ail, ***amrywiaeth gweddi***. Dylai gweddi gynnwys *ymbiliau*, gweddïau yn tarddu o angen. Mae angen ein hatgoffa ein bod mewn *gweddi* yn addoli, cyfarch a moliannu ein Tad. Crea ein clod a mawl i Dduw ddolen bendant rhyngom ag Ef. Try aml weddi yn *ddeisyf pryd y* cyflwynwn i Dduw ein hanghenion. Bydd Duw yn ateb ond nid bob amser yn ôl yr hyn a ddeisyfwn! Cynnwys ein deisyfiadau weddïau dros eraill, dros y ddynoliaeth. Agor ein deisyfiadau sianelau i gariad Duw weithredu yn ein bywydau; defnyddia Duw ein deisyfiadau i gyflawni Ei ewyllys ym mywydau'r rhai y gweddïwn trostynt. Yn olaf, elfen hanfodol mewn crefydd fyw yw gweddi o *ddiolch* sy'n aml yn datguddio rhai o gyfrinachau dyfnaf bywyd. Diolch am Grist ein Gwaredwr, am Newyddion Da'r Efengyl, am faddeuant pechodau a gobaith gogoniant … am yr eglwys a'i chymdeithas, ei chân, gweddi a'i chenhadaeth … am yr holl bethau sy'n gwneud bywyd yn hardd a llawn, am waith a gorffwys, am lawenydd a thristwch, am y trugareddau sy'n llonni a'r treialon sy'n ein dysgu i ymddiried yn Nuw. Yn drydydd, a'r canllaw olaf, ***cyffredinolrwydd gweddi***. Mae gan Dduw gonsyrn am bawb. Sicrha'r "*Amen*" fod ein gweddïau dros y rheini a wyddom amdanynt yn ymblethu â gweddïau holl bobl Duw ym mhobman i fod yn flanced o weddi ddi-dor wedi ei lapio'n dynn o gwmpas y byd. Darlun cofiadwy iawn oedd hwnnw gan y Gweinidog ar ddiwedd ei bregeth pan soniodd am Wal yr Wylofain (llun) yn Jerwsalem. "*Yno*", meddai, "*yn yr agennau rhwng meini anferth y Wal, ceir cannoedd o ddarnau bychain o bapurau wedi ei gwthio i'r craciau. Bob tro y gweddïwn ninnau, gwthiwn ein darnau bychain o weddi i graciau'n byd - hebddynt byddai'r wal wedi hen syrthio!"*

Ceir crynodebau llawn o Bregethau a Homiliau'r Sul ar dudalen ***Crynodeb Pregethau****.*



Braf oedd croesawu Katerina Jonathan yn ôl o'i chyfnod gyda Chyngor y Genhadaeth Byd-eang (*CWM*) yn Amsterdam. Dros y penywthnos cyhoeddwyd erthygl sy'n ysgogi'r meddwl gan Friedrich Wilhem Nietzcheein Gweinidog ar wefan **Cristnogaeth 21.** Ynddi ceir ymdriniaeth o **Friedrich Nietzche** (1844-1900; llun), athronydd o'r Almaen a heriodd sylfeini Cristnogaeth a moesoldeb draddodiadol.

Gyda mis prysur o weithgarwch newydd ar fin cychwyn diolchwn ar derfyn Sul cyntaf Mis Medi am y fraint o gael cyd-addoli a chael ein herio i sicrhau ein bod i gyd, bob yr un ohonom, yn gweddïo am nerth a chyfeiriad i roi ein cyfan ar allor gwasanaeth ein Harglwydd iddo gael sicrhau bod ein 'dim byd' yn 'rhywbeth' o bwys yng Ngwaith Ei Deyrnas.